# CRYNODEB TECHNEGOL AR GYFER CYNLLUNIO

# YSGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL NEWYDD (BLYNYDDOEDD 3-19), CLYDACH

**PWNC**
Crynodeb Technegol ar gyfer Cynllunio

**RHIF DOGFEN**
26CC05-ATR-10-XX-T-A-000005

**DYDDIAD**
08 Hydref 2024

**AWDUR**
AtkinsRéalis; The Urbanists, Morgan Sindall

## Hanes y ddogfen

| Fersiwn | Disgrifiad o'r pwrpas | Gwreiddiol | Gwiriwyd | Adolygwyd | Awdurdodwyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.0 | PAC | IAN | AY | CP | KH | 08/10/24 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

## Cymeradwyaeth y cleient

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cleient** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | | |
| **Prosiect** | YSGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL NEWYDD (BLYNYDDOEDD 3-19), CLYDACH | **Rhif y Ddogfen** | 26CC05-ATR-10-XX-T-A-000005 |
| **Llofnod y cleient / dyddiad** | | | |

# 1. Cyflwyniad

1. Paratowyd y crynodeb technegol hwn gan AtkinsRéalis, The Urbanists, a Morgan Sindall ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnig datblygu safle sy'n eiddo i'r cyngor i ddarparu 176 o leoedd i blant 3-19 oed gydag anghenion dysgu ychwanegol.

2. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r dogfennau canlynol:
   - Datganiad Cynllunio gan The Urbanists
   - Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad gan AtkinsRéalis
   - Crynodeb Tirlunio gan The Urbanists
   - Strategaethau Eraill gan Morgan Sindall

# 2. Crynodeb Cynllunio gan The Urbanists

1. **Cynnwys y Cais Cynllunio**

   Mae'r cais cynllunio'n cynnwys cyfres o luniadau ac adroddiadau technegol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.
   - Cynllun o leoliad y safle
   - Cynllun o'r safle fel y mae ar hyn o bryd
   - Arolwg Topograffig
   - Cynlluniau arfaethedig ar gyfer y safle
   - Gweddluniau arfaethedig ar gyfer yr adeilad
   - Cynlluniau arfaethedig ar gyfer y llawr a'r to
   - Cynlluniau tirwedd caled a meddal
   - Cynllun strategaeth ar gyfer tirwedd
   - Cynlluniau ar gyfer trin ffiniau
   - Cynllun draenio a chynllun lefelau safle arfaethedig (gan gynnwys y strategaeth ddraenio)
   - Dyluniad goleuadau a mapio LUX
   - Cynllun gwarchod/torri coed
   - Datganiad Dylunio a Mynediad
   - Datganiad Cynllunio
   - Datganiad Treftadaeth (gellid ei gynnwys fel rhan o'r Datganiad Cynllunio)
   - Adroddiad PAC
   - Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol
   - Asesiad Rhagarweiniol ar Fannau Clwydo Ystlumod
   - Adroddiadau Arolwg Ecoleg Penodol (i'w cadarnhau drwy Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol)

- Datganiad Seilwaith Gwyrdd
- Arolwg Coed, Cynllun Gwarchod Coed, ac Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth
- Datganiad Trafnidiaeth
- Cynllun Teithio
- Adroddiad Bwrdd Gwaith ar Archaeoleg
- Adroddiad Ymchwiliad Bwrdd Gwaith i Dir (Cam 1)
- Adroddiad Ymchwiliad Safle (Cam 2)
- Asesiad Risg Cloddio am Lo
- Arolwg Sŵn
- Ffurflenni cais cynllunio, hysbysiadau statudol, a thystysgrifau

## 2. Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio

Pennir cyd-destun cynllunio'r cais cynllunio gan bolisi cynllunio a deddfwriaeth genedlaethol sy'n berthnasol. Ceir crynodeb o hyn isod.

### 2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff statudol ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn erbyn cenedlaethau heddiw pan fydd penderfyniadau cyhoeddus yn cael eu gwneud; mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i gynigion datblygu ddangos eu bod yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw ac yn diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol ar yr un pryd.

### 2.2 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol allweddol sy'n darparu cyd-destun materol i'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12)
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Mae'r dogfennau polisi hyn yn gosod rhagdybiaeth ar ddatblygu cynaliadwy ac yn nodi creu lleoedd fel y broses statudol i gyflawni datblygiad o'r fath. Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn nodi cyfres o themâu creu lleoedd y disgwylir i ddatblygiadau eu bodloni. Mae diwygiadau diweddar i Bolisi Cynllunio Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar fynd ati mewn ffordd ragweithiol i ddarparu seilwaith gwyrdd a galluogi manteision net bioamrywiaeth drwy ddatblygiadau newydd. Mae hyn yn cynnwys y gofyn i gynnwys datganiadau seilwaith gwyrdd mewn ceisiadau cynllunio. Sefydlodd **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**, gyfres o bolisïau datblygu allweddol i lywio datblygiadau; roedd hefyd yn sefydlu meysydd twf ledled Cymru. Mae Tonypandy a'r safle datblygu wedi'u lleoli yn rhanbarth y de-ddwyrain, sy'n Ardal Twf Cenedlaethol, a ddyrannwyd o fewn Cymru'r Dyfodol. Mae datblygiadau sy'n gynaliadwy ac wedi'u cynllunio'n dda yn cael eu hannog yn yr Ardal Twf.

### 2.3 Nodiadau Cyngor Technegol

Yn ogystal â'r polisi datblygu trosfwaol uchod, mae cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol yn darparu canllawiau dylunio ar gyfer cynigion datblygu. Nodir isod y rhai sy'n berthnasol i'r datblygiad. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi canllawiau ymarferol y bydd angen i gynllun yr ysgol eu hystyried a'u defnyddio wrth i'r dyluniad fynd rhagddo.

- TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed

- TAN 12: Dyluniad
- TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd
- TAN 16: Chwaraeon, hamdden a mannau agored
- TAN 18: Trafnidiaeth
- TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
- TAN 21: Gwastraff

Mae TAN 15 yn ddogfen arbennig o bwysig sydd wrthi'n cael ei diweddaru ar hyn o bryd. Mae'r darnau o'r mapiau llifogydd sy'n cefnogi'r Nodyn Cyngor Technegol yn dangos nad yw safle'r campws yn dod o fewn parth risg llifogydd o afonydd (nid yn y Map Cyngor Datblygu na'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio). Mae'r mapiau'n dangos y gallai llifogydd dŵr wyneb effeithio ar rannau o'r safle. Ymdrinnir â hyn drwy ddyluniad dŵr wyneb y datblygiad.

### 2.4 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf 2006-2021

Nodir y polisi cynllunio lleol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal yr Awdurdod. Defnyddir y Cynllun Datblygu i arwain a rheoli datblygiadau, gan ddarparu'r sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a rhesymegol. Wrth wneud hynny, mae'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch pa fath o ddatblygiad fyddai'n cael ei ganiatáu ac na fyddai'n cael ei ganiatáu mewn lleoliadau penodol yn ystod cyfnod y Cynllun. Y cynllun perthnasol ar gyfer y datblygiad hwn yw Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf 2006-2021. Mae'r cynllun wrthi'n cael ei ddisodli. Cafodd y Strategaeth sy'n cael ei Ffafrio ei chyflwyno ar gyfer ymgynghoriad rhwng mis Chwefror 2024 a mis Ebrill 2024. Mae'r Strategaeth sy'n cael ei Ffafrio ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037 ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cynllun Datblygu'n dangos bod Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn amgylchynu'r safle cyfan. Mae hefyd yn dangos bod y safle y tu allan i ffin yr anheddiad. Nid oes unrhyw gyfyngiadau eraill wedi'u nodi yn y Cynllun.

Mae'r polisïau ysgrifenedig canlynol o'r Cynllun Datblygu yn berthnasol i benderfynu ar gais cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig:

- CS1: Datblygiad yn y Gogledd
- CS9: Rheoli Gwastraff
- CS10: Mwynau
- AW2: Lleoliadau Cynaliadwy
- AW4: Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio
- AW5: Datblygiad Newydd
- AW6: Dylunio a Chreu Lleoedd
- AW7: Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig
- AW8: Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
- AW10: Diogelu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd
- AW14: Diogelu Mwynau
- NSA16: Ailddatblygu Safleoedd Diwydiannol Gwag/Segur

## 3. Hanes Cynllunio

Mae'r safle'n dir llwyd sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen, fel yr ardal gyfagos. Felly, mae gan y safle a'r ardal gyfagos gofnod blaenorol o gynigion datblygu a chaniatâd cynllunio. Ceir crynodeb o'r cofnodion cynllunio amlwg isod. Nid yw'r caniatâd ar gyfer darparu swyddfeydd y Cyngor yn cael ei gadw ar y gronfa ddata ar-lein

oherwydd cyfyngiadau amser

- 24/0231/DEM: Hysbysiad ymlaen llaw o'r bwriad i ddymchwel yr holl adeiladau ar y safle (cyn bencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 3 swyddfa deulawr, 2 swyddfa un llawr, ystafell hyfforddi, caban diogelwch a 2 garej). Caniatawyd (09.04.24)
- 12/1200/FUL: Tir i'r ochr o uned 2 i'w droi'n faes parcio i'w ddefnyddio gan uned y Post Brenhinol wrth ymyl y safle. Caniatawyd (15.02.13)
- 05/0726/GREG: Gosod unedau aerdymheru yng nghefn Pafiliwn B. Caniatawyd (07.06.05)

## 4. Arfarniad Cynllunio

Mae safle'r cais y tu allan i ffin yr anheddiad, fel y'i diffinnir yn y CDLl, ond mae'n dir llwyd o ran ei gymeriad ac yn dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae hefyd wedi'i leoli o fewn Ardal Twf Cenedlaethol mewn polisi cenedlaethol. Felly, ystyrir bod lleoliad y datblygiad yn gynaliadwy, yn ddefnydd da o dir ac yn bodloni polisi cynllunio, gan gynnwys polisi lleol NSA16.

Mae'r safle eisoes wedi'i glirio o adeiladau blaenorol y Cyngor a oedd wedi'u lleoli yno. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd asesiad ecolegol a chwblhawyd arolygon o rywogaethau blaenoriaeth priodol. Gyda'i gilydd, nododd y gwaith hwn mai ychydig o sensitifrwydd ecolegol oedd i'r safle a bod yr adeiladau'n addas i'w dymchwel. Wrth i ddyluniad y cynllun ddatblygu, mae'r asesiad ecolegol wedi cael ei ddiweddaru i sicrhau bod dyluniad arfaethedig yr ysgol newydd yn briodol. Mae hyn yn cynnwys diogelu dynodiad SINC o amgylch y safle, cadw'r coed sy'n ffinio â'r safle a sicrhau bod lefelau golau mor isel ag y bo modd. Fel rhan o'r datblygiad, bydd seilwaith gwyrdd newydd yn cael ei ddarparu ar y safle. Bydd hwn yn amlbwrpas, gyda manteision amwynder i staff a disgyblion, a bydd yn helpu i reoli dŵr wyneb yn gynaliadwy a sicrhau gwerth o ran bioamrywiaeth. O'r herwydd, tybir y byddai'r datblygiad yn gynaliadwy ar sail cadwraeth natur a bioamrywiaeth.

Byddai dyluniad pensaernïol adeilad yr ysgol newydd yn fodern ac o safon weledol uchel sy'n addas ar gyfer safle addysg ardderchog a fydd yn gwasanaethu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae maint a màs yr adeilad yn briodol i'r safle, gyda choed sydd yno'n barod yn gweithredu fel sgrin ac yn sicrhau nad yw'n tynnu oddi wrth olygfeydd allweddol yn y dirwedd ehangach. Bydd adeilad yr ysgol yn defnyddio ynni'n effeithlon ac yn Garbon Sero Net. Gan ystyried y dulliau dylunio hyn, ystyrir y byddai'r datblygiad yn creu lleoedd o ansawdd uchel yn unol â pholisi cenedlaethol a pholisi AW6 y Cynllun Datblygu.

Gan fod y safle wedi'i ddatblygu o'r blaen, mae halogiad ac adferiad yn ystyriaeth o bwys. Er mwyn deall cyflwr y tir, mae rhaglen gynhwysfawr o ymchwiliadau safle wedi cael ei chynnal i fframio'r dyluniad. Mae hon wedi bod yn fuddiol wrth siapio rhaglen adfer briodol, a fydd yn cael ei chynnal fel rhan o'r safle. Bydd hyn yn sicrhau bod modd delio'n llawn â halogiad blaenorol fel bod y safle'n gwbl ddiogel i iechyd pobl ac i'r amgylchedd. Bydd y gwaith a'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod y datblygiad yn bodloni polisïau lleol AW7, 8 a 10.

O ystyried natur y datblygiad, lle bydd staff a myfyrwyr yn dod o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, bydd angen sicrhau bod y datblygiad yn cynnig ffordd addas i gerbydau gael mynediad a lle parcio penodol. Mae nifer addas o leoedd parcio wedi cael

eu neilltuo ar y safle ac mae'r safle'n elwa o gysylltiadau priffyrdd strategol sy'n gallu cefnogi'r ysgol newydd heb gael effaith ormodol ar y rhwydwaith priffyrdd ehangach. Bydd teithio cynaliadwy hefyd yn cael ei gefnogi fel rhan o'r datblygiad; bydd seilwaith teithio llesol priodol yn cael ei ddarparu yn safle'r datblygiad i annog teithio llesol a bydd y safle'n cael ei wasanaethu gan lwybrau troed o safon, a'r rheini wedi'u goleuo'n dda. Bydd cludiant wedi'i drefnu yn cael ei ddefnyddio i leihau teithiau preifat mewn ceir, a bydd y staff yn cael eu hannog i rannu car. Bydd Cynllun Teithio yn cael ei baratoi ar gyfer y safle er mwyn hyrwyddo teithio cynaliadwy pan fydd yr ysgol wedi'i sefydlu. Er mwyn hwyluso'r datblygiad, bydd angen gorchymyn cau, a byddwn yn mynd ar drywydd hyn gyda'r Awdurdod Priffyrdd ar ôl i'r caniatâd cynllunio gael ei roi.

**5. Crynodeb Cynllunio**

Ystyrir bod yr egwyddor o ddatblygu hen safle'r Cyngor yng Nghwm Clydach at ddibenion addysg yn gadarn o ran polisi cynllunio. Er bod y safle y tu allan i ffin yr anheddiad, mae'n dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen, a bydd yn darparu defnydd addysg mawr ei angen a fydd yn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r arfarniad cynllunio'n dangos manylion y cynllun ac yn gosod yr achos dros fodloni'r polisi cynllunio perthnasol. Argymhellir yn gryf felly y dylid rhoi caniatâd cynllunio.

# 3. Dyluniad Pensaernïol a Datganiad Mynediad Cryno gan AtkinsRéalis

**1. Cyflwyniad**

Paratowyd datganiad cynllunio, dylunio a mynediad gan AtkinsRéalis. Pwrpas y ddogfen yw nodi gwybodaeth gefndir y prosiect, gofynion swyddogaethol y briff a dehongliad y pensaer o gyd-destun y safle a'r ymateb iddo.

**2. Cyd-destun y Safle**

Dyma gyfeiriad y safle:

Y Pafiliynau,

Parc Cambrian,

Cwm Clydach,

Tonypandy

CF40 2XX

Roedd y safle'n cael ei ddefnyddio'n ffurfiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer swyddfeydd y cyngor. Roedd y swyddfeydd yn cynnwys chwe phafiliwn a oedd yn amrywio o un llawr i ddau lawr. Mae'r gwaith o ddymchwel yr hen adeiladau, a gytunwyd drwy hysbysiad ymlaen llaw, wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae llefydd parcio hefyd i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gorllewin o'r pafiliynau. Mae'r lle parcio'n cael ei wasanaethu ar hyn o bryd gan ffordd fynediad sy'n rhedeg ar hyd y ffin ogleddol. Parc diwydiannol yw pen dwyreiniol y safle. Mae pen gorllewinol y safle yn rhan o ardal a ddynodwyd yn Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. I'r gogledd o'r safle mae Nant Clydach

(Parc Gwledig Cwm Clydach) gyda llyn sydd â choetir yn ei wahanu oddi wrth y safle, a newid sylweddol mewn lefel. Darperir mynediad rhwng y ddau gan lwybr llethrog/stepiau ychydig y tu allan i fynedfa'r safle.

## 3. Dylunio a Mynediad

**Defnydd o'r Adeilad:**

Bydd yr ysgol newydd yn darparu 176 o leoedd ar gyfer plant 3-19 oed gydag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd yn darparu ar gyfer dysgwyr gydag amrywiaeth eang o anghenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i); Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, Anawsterau Dysgu Difrifol, Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig, ac anghenion Iechyd Meddwl Cymdeithasol ac Emosiynol.

**Parthau'r Safle a safle'r adeilad:**

Mae'r dyluniad yn defnyddio pen dwyreiniol y safle, sef y rhan agosaf at y parc diwydiannol, fel parth ar gyfer parcio, gollwng ac ardaloedd planhigion allanol. Y nod yw defnyddio'r parth hwn fel byffer sŵn ac o ganlyniad, gwthio'r adeilad ymhellach i ffwrdd oddi wrth y parc diwydiannol.

Yn naturiol, mae parth datblygu allweddol ar gyfer adeilad yr ysgol ac ardal allanol yr ysgol yn dechrau ffurfio rhwng y maes parcio a'r Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur i'r gorllewin.

Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun y safle yn cael ei flaenoriaethu gan y strategaeth gollwng/casglu sy'n gweithio i'r ysgol. Mae hon yn swyddogaeth allweddol a sensitif mewn unrhyw ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n cynnwys creu mannau gollwng pwrpasol ar gyfer bysiau mini a cheir/tacsis preifat.

**Y Prif Adeilad:**

Mae ffurf yr adeilad yn cael ei ddatblygu i ymateb i gyfyngiadau a chyfleoedd y safle, ac yn creu cysylltiadau rhwng rhannau mewnol ac allanol a'r amgylchedd naturiol cyfagos.

Mae'r adeilad yn cynnwys dau lawr gyda theras awyr agored diogel ar lawr cyntaf y wedd ddeheuol. Mae'r cysyniad dylunio'n seiliedig ar floc canolog sy'n gweithredu fel canolbwynt yr ysgol, gan gysylltu dau floc, un i'r dwyrain ac un arall i'r gorllewin.

Mae'r bloc canolog yn cynnwys y mannau a rennir ac mae'r blociau dwyreiniol a gorllewinol yn cynnwys prif fannau addysgu'r ysgol. Caiff hyd y blociau addysgu eu haddasu ar sail dosbarthiad a nifer yr ystafelloedd dosbarth ym mhob adain.

Bydd gan yr ystafelloedd dosbarth ar y llawr gwaelod fynediad uniongyrchol at lecynnau allanol cysgodol.

**Ffurf yr Adeilad a Phensaernïaeth:**

Mae'r bensaernïaeth yn cynnwys tri bloc nodweddiadol, a'r bloc canolog yw prif bwynt ffocws yr ysgol. Bydd y bloc canolog yn cynnwys ffenestri mawr, wedi'u dylunio i ddathlu ac arddangos mannau allweddol fel y brif

fynedfa a’r ystafell les. Mae’r agoriadau hefyd yn gyfle i gysylltu’r mannau mewnol â’r awyr agored.

Mae dyluniad y ffasâd yn archwilio’r defnydd o frics yn y dyluniad er mwyn cael ymdeimlad o gynefindra, cadernid a chynaliadwyedd. Cyflwynir lliwiau drwy frics a/neu fframiau ffenestri.

Mae cladin hefyd yn cael ei gyflwyno ar y wal allanol lefel uchel, uwchben y grisiau sy'n rhoi mynediad i’r to a’r cyntedd. Nid oes modd i’r myfyrwyr fynd i’r fan yma, ac mae’n cael ei warchod gan barapetau’r prif do.

# 4. Crynodeb Tirlunio gan The Urbanists

Nod y cynllun presennol a gynigir ar gyfer y dirwedd yw cysylltu’r disgyblion a’r athrawon â’r natur o’u cwmpas, ac mae cyfyngiadau a chyfleoedd y safle wedi dylanwadu arno.

**Parthau:**

Fel y soniwyd yn gynharach, mae’r safle wedi’i rannu’n dri pharth. Bydd y parth dwyreiniol sydd agosaf at y parc diwydiannol yn cael ei ddefnyddio fel byffer ar gyfer yr ysgol ac fel lle ar gyfer parcio a phlanhigion allanol. Bydd y rhan orllewinol sy’n dod o fewn ardal y Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn cael ei gadael heb ei chyffwrdd a bydd y rhan ganol yn cael ei defnyddio fel prif ardal yr ysgol.

**Gweithgareddau/parthau tirwedd:**

Mae ardaloedd gwahanol wedi cael eu cynnig drwy’r safle i gyd i fynd i’r afael ag anghenion yr ysgol. Y prif rai yw ystafelloedd dosbarth allanol, ardaloedd archwilio cynefinoedd, synhwyraidd a thyfu bwyd a meysydd chwarae sy'n cael eu rhannu. Mae’r brif ffordd ar gyfer gollwng/casglu wedi dylanwadu ar ein dyluniad yn rhan ogleddol y safle, gan mai’r nod yw cadw cymaint â phosibl o strwythur y ffordd fel y mae ar hyn o bryd. Er y bydd y fan hon yn cael ei defnyddio fel man gollwng pan fydd myfyrwyr yn cyrraedd, rydym am greu naws tebycach i barc chwarae. Cyflawnwyd hyn drwy wneud defnydd creadigol o leinin lliwgar ar y tir a ffordd siâp “organig”. Ar ben hynny, mae prif fynedfa’r ysgol wedi cael ei dylunio gyda’r teimlad o gyrraedd “drwy’r coed” i’r ysgol, gyda llystyfiant SDCau a’r bwriad i blannu coed.

**Strategaethau Gwyrdd/Glas:**

Nod ein dyluniad arfaethedig yw creu cysylltiadau “gwyrdd” drwy’r safle a dod â phrydferthwch y llystyfiant o’i gwmpas yn nes at yr ysgol a’r disgyblion. Oherwydd lleoliad y safle, bydd y llystyfiant a gynigir yn adlewyrchu’r ecoleg leol a bydd yn addasu i’w anghenion, er enghraifft, cysgod. Er mwyn mynd i’r afael â gofynion penodol yr ysgol ADY, ni fydd y llystyfiant yn wenwynig, a bydd coed yn cynnwys un coesyn. Byddant yn ddigon pell i ffwrdd neu y tu ôl i ffens. Hefyd, mae gerddi glaw a phalmentydd hydraidd wedi cael eu cynnig i fynd i’r afael â gofynion y safle o ran llifogydd a SDCau.

**Strategaethau ffiniau:**

Oherwydd natur yr ysgol, mae angen terfynau ac offer gwrth-ddringo allanol. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, mae'r ffiniau arfaethedig wedi cael eu gwthio i'r blaen, a'r llystyfiant y tu ôl iddynt, gan greu cefndir gwyrdd i'r myfyrwyr a'u cysylltu â'r gilfach gyfagos.

# 5. Strategaethau Eraill gan Morgan Sindall

1. **Asesiad Trafnidiaeth**

- Mae Asesiad Trafnidiaeth wedi cael ei baratoi gan Acstro Ltd i gefnogi cais cynllunio ar gyfer ysgol 3 – 19 newydd yn Nhonypandy, ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae'r Asesiad Trafnidiaeth wedi cael ei lunio er mwyn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r awdurdodau priffyrdd a chynllunio lleol i ystyried rhinweddau'r datblygiad o ran hygyrchedd, diogelwch priffyrdd ac effaith traffig y datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.
- Mae'r Asesiad Trafnidiaeth yn cael ei gefnogi gan Gynllun Teithio Ysgol sy'n cael ei gyflwyno fel dogfen ar wahân.
- Mae'r ysgol yn ddarpariaeth newydd, felly nid oes diffiniad ar hyn o bryd sut y bydd defnyddwyr yn teithio i'r ysgol. Mae'r asesiad yn defnyddio cymarebau o ysgol ADY sy'n bodoli'n barod yn Rhondda Cynon Taf, sef Ysgol Hen Felin.

**Mynediad:**

- Disgwylir i 74% o'r disgyblion deithio i'r ysgol mewn cludiant a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae hynny'n cyfateb i 11 bws mini ac 8 tacsi.
- Mae'r 26% sy'n weddill yn teithio i'r ysgol mewn cerbydau preifat, fel arfer un disgybl ym mhob cerbyd, sy'n rhoi 46 o gerbydau.
- Ar sail asesiad staff Ysgol Hen Felin, mae'r Asesiad Trafnidiaeth yn amcangyfrif y bydd 113 aelod o staff yn gweithio yn yr ysgol newydd, gyda 78 yn gyrru i'r gwaith.
- Amcangyfrifir y bydd cyfanswm symudiadau cerbydau ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn 208.

**Parcio:**

- Mae'r cynllun yn cynnwys 79 o lefydd parcio, gyda 74 ohonynt o faint safonol a 5 yn hygyrch.
- Mae'r safle gollwng yn cael ei ddarparu mewn 9 man, gyda digon o le ar gyfer cerbydau sy'n ciwio ar hyd llwybr cylchredol y maes parcio.

**Traffig:**

- Mae'r Asesiad Trafnidiaeth yn diffinio bod Cymhareb Llif yn erbyn Capasiti'r gyffordd i Ystâd Ddiwydiannol y Cambrian ar hyn o bryd yn 0.61, a bydd yn cynyddu i 0.66 ar ôl cynnwys traffig yr ysgol newydd. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y bydd y gyffordd yn parhau i weithredu gyda chapasiti dros ben ac nid yw tagfeydd yn debygol.

2. **Draenio**

- Cynhaliwyd profion suddfannau dŵr gan Terra Firma i gadarnhau hyfywedd draenio ymdreiddiad. Mae nodyn technegol Terra Firma wedi'i gynnwys, sy'n cadarnhau nad yw draenio ymdreiddiad yn ymarferol ar y safle.
- Mae Map Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod y safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl ym

Mharth A, ac ystyrir nad oes llawer o risg, os o gwbl, o lifogydd o afonydd na llanw / arfordirol yn y fan honno. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cyd-fynd â'r Map Cyngor Datblygu o ran patrwm risg llifogydd o afonydd. Serch hynny, mae'n nodi bod y safle'n wynebu risg isel i uchel o lifogydd dŵr wyneb, gyda'r hyn sy'n ymddangos yn llwybr llif dros y tir yn croesi'r safle.

- Bydd dŵr wyneb sy'n rhedeg oddi ar y safle'n cael ei gasglu a'i gludo drwy gyfres o SDCau a nodweddion draenio o faint priodol, sydd mor agos at y ffynhonnell â phosibl. Oherwydd potensial isel neu gyfyngedig ymdreiddiad strata'r safle, bydd dŵr storm yn cael ei gasglu a'i gludo drwy gyfres o SDCau a nodweddion draenio, ac yn y pen draw, yn cael ei ollwng oddi ar y safle naill ai i'r cysylltiad presennol â'r rhwydwaith dŵr storm neu i'r cwrs dŵr ar y safle sy'n llifo i Nant Clydach yn y pen draw.
- Mae'r dyluniad Draenio yn amodol ar gais i Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a chymeradwyaeth y corff hwnnw.

## 3. Cyflwr y Tir

- Mae Astudiaeth Ddesg Geo-dechnegol a Geo-amgylcheddol ac Asesiad Risg Cloddio Glo wedi cael eu cwblhau gan Terra Firma, gydag Adroddiad Geo-dechnegol a Geo-amgylcheddol yn cael eu darparu yn dilyn gwaith archwilio ar y safle.
- Mae Model Cysyniadol Rhagarweiniol y Safle yn dangos posibilrwydd isel i ganolig y gallai niwed godi i dderbynnydd dynodedig o'r peryglon a nodwyd o nwy mwyngloddiau, dŵr daear a phridd halogedig.
- Nodir posibilrwydd uchel o niwed o nwy daear i'r derbynyddion dynodedig.
- Roedd Adroddiad Asesu Risg Nwy Mwyngloddiau a Daear yn nodi'r angen i ddylunio mesurau diogelu nwy. Dylai'r mesurau lliniaru gael eu dylunio gan beiriannydd sydd wedi'i ardystio gan y Gymdeithas Asesu Risg Tir Llwyd (SoBRA) a'i yswirio'n briodol i ddiogelu rhag y risg nwy a nodwyd.
- Mae hen weithfeydd cloddio ar y safle, yn enwedig Mynedfeydd. Cynigir rhaglen o ddrilio a growtio yn unol â'r Fanyleb Drilio a Growtio a brofwyd gan Terra Firma.

## 4. Sŵn

Mae Formant wedi darparu Adroddiad Dylunio Acwstig.

Mae arolwg sŵn sylfaenol wedi cael ei gynnal ar y safle i fesur lefelau sŵn amgylchynol a chefndir, a ddefnyddiwyd i bennu terfynau sŵn peiriannau yn y lleoliadau agosaf sy'n sensitif o ran sŵn.

Mae peiriannau mecanyddol newydd, gan gynnwys cyfarpar trin aer a Phympiau Gwres Ffynhonnell Aer, yn cael eu gosod ar y to lle nad yw effaith sŵn sy'n cael ei gynhyrchu gan beiriannau mor sylweddol, gyda dulliau gwanhau sŵn yn cael eu nodi lle bo angen er mwyn bodloni'r cyfyngiadau yn yr Adroddiad.

## 5. Goleuadau Allanol

Mae'r cynllun goleuadau allanol arfaethedig wedi cael ei ddylunio i gynnwys ffyrdd, llwybrau a pherimedrau o amgylch y safle, gan ddefnyddio ffitiadau LED.

Defnyddir unedau goleuadau ar yr adeilad i oleuo perimedr yr adeilad, gyda ffitiadau ar golofnau wedi'u darparu ar gyfer y llefydd parcio.

Mae'r gosodiadau wedi cael eu dewis i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o olau yn cael ei daflu am i fyny, gan gynnwys ffitiadau'r maes parcio.

Bydd y goleuadau'n cael eu rheoli gan gloc amser, a bydd modd newid y gosodiadau â llaw neu ddefnyddio technoleg ffotogell i leihau'r defnydd o ynni yn ystod oriau golau dydd a chyfnodau pan fydd yr adeilad yn defnyddio llai.

## 6. Ecoleg

Mae Arolwg Ecolegol Rhagarweiniol wedi cael ei gwblhau gan Lingard Farrow Styles ym mis Rhagfyr 2023. Canfyddwyd rhywogaethau goresgynnol, ac argymhellwyd y dylid gofyn i arbenigwr gael gwared ar y rhain.

Ceir nant i'r ffin Ddeheuol sydd angen ei diogelu rhag dŵr ffo. Bydd angen diweddaru'r Arolwg Ecolegol Rhagarweiniol ar gyfer Caniatâd Cynllunio gan fod angen gwneud gwaith atgyfnerthu ar y nant i liniaru llifogydd dŵr wyneb.

Gwnaed argymhellion ar gyfer dymchwel Adeiladau'r Pafiliwn, gan gynnwys osgoi gwneud hynny pan fyddai adar yn nythu. Mae Adeiladau'r Pafiliwn wedi cael eu dymchwel ers hynny o dan Gais Cynllunio 24/0231/DEM.

Argymhellir cael ffens ymlusgiaid / amffibiaid er mwyn atal ymlusgiaid ac amffibiaid rhag mynd i mewn i'r safle.

Argymhellir defnyddio goleuadau am i lawr i atal golau rhag cyrraedd y coetiroedd cyfagos.

Mae'r adroddiad yn argymell amrywiaeth o welliannau ecolegol, gan gynnwys blychau adar ac ystlumod, plannu o'r newydd, creu refugia ac, os yw'n briodol, creu pwll.

## 7. Coed

Darperir arolwg coed gan 'Arboricultural Technician Services Ltd'. Manylir ar golli coed a mesurau cydadferol yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd.

Bydd Asesiad Effaith Coedyddiaeth yn cael ei gynnwys gyda'r Cais Cynllunio.